**Cyfarwyddwr Cyffredinol Grŵp Iechyd, Gofal Cymdeithasol a'r Blynyddoedd Cynnar / Prif Weithredwr GIG Cymru**

**Director General Health, Social Care & Early Years Group / NHS Wales Chief Executive**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Russell George AS
Cadeirydd, Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

10 Ebrill 2025

Annwyl Mr George

Diolch am eich llythyr dyddiedig 13 Mawrth 2025 ynglŷn â sut y bydd Rhwydwaith Clinigol Strategol Gweithrediaeth y GIG ar gyfer Diabetes yn gofyn am fewnbwn gan bobl y mae diabetes yn effeithio arnynt.

Rydych wedi nodi fy ymateb ar 2 Chwefror 2025, sy'n esbonio ei bod yn ofynnol gan rwydweithiau clinigol Gweithrediaeth y GIG bod ffordd o ymgysylltu â chleifion ar ddarnau penodol o waith, ac y gellir gwneud hyn mewn amryw o ffyrdd. Gall pob rhwydwaith benderfynu ar y ffordd orau o wneud hyn, ac mae'r Rhwydwaith Diabetes wedi dewis cydweithio'n agos ag elusennau cenedlaethol fel Diabetes UK a Breakthrough Type 1. Mae cynrychiolwyr o'r elusennau hyn yn cymryd rhan yng Ngrŵp Cyfeirio Clinigol y Rhwydwaith fel y gellir adnabod cyfleoedd i ymgysylltu â phobl y mae diabetes yn effeithio arnynt, a manteisio ar y cyfleoedd hyn pan fo angen.

Rwy'n ymwybodol bod y Rhwydwaith hefyd wedi gofyn am fewnbwn yn ddiweddar gan ddau gynrychiolydd cleifion sy'n cymryd rhan yng Ngrŵp Llywio Prosiect Addysgwyr Cymheiriaid y Rhwydwaith. Yn ogystal, mae gan y Rhwydwaith yr opsiwn o gynnwys cleifion drwy ei bartneriaeth ag Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n arwain y Rhaglen Genedlaethol Datrys Diabetes gyda'n Gilydd.

Yn fy marn i, mae'n gwneud synnwyr i ddefnyddio cyrff a rhaglenni presennol sydd â mynediad at nifer fawr o bobl sydd wedi'u heffeithio gan ddiabetes, gan y bydd hyn yn sicrhau bod modd cael mynediad at ystod eang ac amrywiol o safbwyntiau. Bydd natur benodol y rhyngweithio a pha mor aml y bydd hyn yn digwydd yn dibynnu ar y mater dan sylw, gan amrywio o wneud sylwadau ar ddogfennau i wneud awgrymiadau ar gynigion. Bydd hyn yn sicrhau y gellir defnyddio ystod o fecanweithiau i ofyn barn cleifion i ddylanwadu ar gynhyrchion penodol y rhwydweithiau clinigol cenedlaethol mewn ffordd weladwy ac ystyrlon.



Parc Cathays ● Cathays Park
Caerdydd ● Cardiff
CF10 3NQ

Judith.Paget001@gov.wales
Gwefan ● website: www.llyw.cymru

Does dim angen i'r Rhwydwaith gofnodi profiad cleifion yn rheolaidd o ran darpariaeth gwasanaethau, gan mai mater i fyrddau iechyd ei drafod â chleifion, gofalwyr a chymunedau yn lleol yw hyn. Mae byrddau iechyd yn gyfrifol am fonitro'r profiad hwn a mynd i'r afael â phryderon sy'n cael eu codi trwy eu prosesau lleol eu hunain. O ganlyniad, nid oes unrhyw ddisgwyliad y bydd y Rhwydwaith yn cynnal fforwm cleifion sefydlog.

Diolch ichi am ysgrifennu ataf ynghylch y mater hwn.

Yn gywir

Judith Paget

**Judith Paget CBE**